

❖ DIRGELWCH

Wrth graffu ar ddull yr oes bresennol o ddathlu'r Nadolig, daw rhywun yn ymwybodol o flwyddyn i flwyddyn bod symlrwydd yr ŵyl yn mynd fwyfwy ar goll ynghanol môr o rialtwch. Does dim lle ar ôl o gwbl bellach i'r rhamant a'r rhyfeddod a'r dirgelwch. Elw, masnach, glythineb a gloddest sy'n cael y sylw i gyd. Ynghanol y fath awyrgylch oeraidd a chystadleuol, mae'r gwir grediniwr yn falch o fedru cydio'n dynnach ym mhob cyfle a ddaw i'w ran i droi i'r Ysgrythurau sanctaidd a myfyrio o'r newydd ar hanes dyfodiad 'y Mab bychan' i'r byd. Ffaith yr Ymgawdoliad yw sylfaen ein ffydd. Dyma'r ffaith hanesyddol sy'n gwneud y ffydd Gristnogol yn unigryw. Ffaith sydd â rhyw ddirgelwch yn perthyn iddi. Yn nhymor prysur yr Adfent yn flynyddol, byddaf yn hoff o fyfyrio'n aml ar eiriau o eiddo'r apostol Paul at ei gyfaill ifanc Timotheus – 'Mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd' (1 Timotheus 3:16) (*BWM*).

Go brin y llwydda'r un meidrol yn i gyrraedd y safle o fedru deall yn llwyr ac egluro'n llawn wyrth yr Ymgawdoliad. Er yr holl oleuni a rydd ysgolheigon Beiblaidd, haneswyr ac archaeolegwyr ar yr hanesion ynglŷn â Iesu o Nasareth, mae holl 'ins and outs' yr Ymgawdoliad yn parhau i fod yn ddirgelwch. Diolch byth am hynny mewn oes sydd mor barod i ymwrthod ag unrhyw beth nad oes modd ei ddeall a'i esbonio'n llawn. Arhoswn ennyd yng nghwmni'r apostol Paul oedd yn ddigon gwylaidd i gyfaddef yn wyneb digwyddiad mwyaf hanes mai 'mawr yw dirgelwch duwioldeb'. Yr un modd, wrth iddo geisio'i orau glas i egluro dirgelion yr Atgyfodiad, ei ymateb gwylaidd oedd, 'Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch' (1 Corinthiaid 15:51) (*BWM*). Yr un hefyd yw tystiolaeth Hiraethog yn ei emyn:

O ddirgelwch mawr duwioldeb,
 Duw'n natur dyn;
 Tad a Brenin Tragwyddoldeb
 yn natur dyn;
 o holl ryfeddodau'r nefoedd
 dyma'r mwyaf ei ddyfnderoedd,
 testun mawl diderfyn oesoedd,
 Duw'n natur dyn!

Peidiwn â gadael i holl brysurdeb tymor yr Adfent ein rhwystro rhag mwynhau rhywfaint o wefr 'dirgelwch' yr Ymgawdoliad y Nadolig hwn, oherwydd, fel y dywedodd Dyfnallt:

Dwfn yw dirgelwch cudd
 yr iachawdwriaeth fawr,
 a'r cariad na fyn golli'r un
 o euog blant y llawr.

Wayne Hughes